## Bywgraffiad Siaradwr

**Ian Mathieson, Cyfarwyddwr Strategaeth Addysg a Thrawsnewid, AaGIC**

Ian yw'r person cyntaf i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Strategaeth Addysg a Thrawsnewid gan sicrhau bod AaGIC yn llywio ac yn arwain yr agenda addysg gofal iechyd yng Nghymru a ledled y DU.

Mae Ian wedi ymuno ag AaGIC o Brifysgol De Cymru lle mae'n Deon Cyswllt Partneriaethau a Datblygu Busnes (Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Mae hefyd yn Gynullydd Cyngor y Deoniaid dros Iechyd Cymru. Ar ôl cymhwyso fel podiatregydd ym 1995, mae gan Ian dros 28 mlynedd o brofiad fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac academydd.

**Sharon Weldon, Athro Efelychu Gofal Iechyd a Datblygu'r Gweithlu; Pennaeth Cyswllt ar gyfer Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth, Prifysgol Greenwich; Llywydd Etholedig Cymdeithas Ymarfer Efelychu mewn Gofal Iechyd (ASPiH)**

Mae'r Athro Sharon Marie Weldon yn nyrs gofrestredig gyda chefndir mewn iechyd byd-eang a gyrfa ymroddedig i archwilio potensial trawsnewidiol efelychu gofal iechyd a datblygu'r gweithlu trwy ymchwil, ymarfer ac addysg. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar ddefnyddio efelychu nid yn unig i ddatblygu pobl, ond hefyd i brofi ymyriadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac ailddychmygu sut y gallai gofal iechyd esblygu - yn enwedig trwy ddulliau hydredol fel efelychu dilyniannol.

Mae hi wedi arloesi hyfforddiant timau llawfeddygol wedi'i seilio ar arferion cyfathrebu a ymchwiliwyd yn empirig ac wedi cyd-greu manicins cynhwysol, realistig ac amgylcheddau efelychu dosbarthedig mewn cydweithrediad ag artistiaid a phartneriaid yn y diwydiant. Ar hyn o bryd, Sharon yw Llywydd-etholedig y Gymdeithas ar gyfer Ymarfer Efelychu mewn Gofal Iechyd (ASPiH), Golygydd Cyswllt y Journal of Healthcare Simulation, ac mae'n cyfrannu'n weithredol at sgyrsiau polisi trwy ei rolau ymgynghorol gyda chyrff rheoleiddio a phroffesiynol. Mae hi'n parhau i gyhoeddi'n eang ac mae wedi ymrwymo i ymchwil, addysg ac ymarfer cydweithredol sy'n sbarduno newid ystyrlon a chynhwysol.

Iddi hi,  efelychu yw chwarae- gyda phwrpas.

**Doris Østergaard, MD, DMSc, MHPE Athro Emeritws mewn Addysg Feddygol ac Efelychu ym Mhrifysgol Copenhagen**

Mae Doris yn anesthetydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu addysg gofal iechyd a hyfforddiant yn seiliedig ar efelychu i wella diogelwch cleifion. Roedd Doris yn rhan o'r grŵp a sefydlodd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Efelychu, SESAM ac ynghyd â'i thîm sefydlodd Academi Addysg Feddygol ac Efelychu Copenhagen (CAMES), Prifddinas-Ranbarth Denmarc. Mae Doris wedi bod yn gyfrifol am weithredu hyfforddiant yn seiliedig ar efelychu mewn rhaglenni hyfforddi arbenigol ar gyfer

anesthetyddion a nyrsys anesthesia yn Nenmarc. Yn ddiweddar, ymddiswyddodd Doris a daeth yn Athro Emeritws mewn Addysg Feddygol ac Efelychu ym Mhrifysgol Copenhagen. Mae Doris yn aelod anrhydeddus o SESAM ac ESAIC ac yn Gadeirydd gweithgor ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn SSAI.

**Sara-Catrin Cook, Deon Cyswllt ar gyfer Efelychu a Sgiliau Clinigol (ac Arweinydd Prosiect), AaGIC**

Mae Sara yn gweithio fel Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Gofal Dwys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae hi hefyd yn Ddeon Efelychu yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae hi wedi bod yn rhan o waith efelychu yn y maes gofal iechyd ers tua 2009. Efelychu in-situ yw ei diddordeb penodol, ac mae'n ei ddefnyddio ar gyfer darparu addysg yn ogystal ag i brofi systemau/prosesau a gwella ansawdd. Mae ganddi brofiad helaeth o ddylunio a darparu digwyddiadau rhyngbroffesiynol amrywiol sy'n defnyddio efelychu, ac mae hi'n mwynhau'n arw y cyfle i gyflwyno mewn cyfarfodydd a chynadleddau.

Yn 2016, cafodd Sara gyfle i ddilyn cymrodoriaeth ffurfiol mewn efelychu yn y Sydney Clinical Skills and Simulation Centre yn ogystal ag yn y Royal North Shore Hospital, Sydney. Cafodd Sara fodd i fyw yn dod i adnabod efelychwyr ysbrydoledig niferus o bob cwr o'r byd.

A hithau bellach yn ôl yng Nghymru, mae Sara yn teimlo'n freintiedig ei bod yn arwain Tim Efelychu AaGIC a'i bod yn gallu helpu gyda'r gwaith rhagorol sy'n mynd rhagddo yn y maes efelychu mewn gofal iechyd yng Nghymru.

## Bywgraffiadau Cadeirydd

**Clare Hawker, Deon Cyswllt ar gyfer Efelychu a Sgiliau Clinigol, AaGIC**

Mae Clare wedi ymddiddori ers amser mewn addysg sgiliau clinigol ac addysg seiliedig ar efelychiad i nyrsys. Mae hi wedi arwain ar addysg sgiliau clinigol ac Addysg Seiliedig ar Efelychu (SBE) yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd ers nifer o flynyddoedd, lle mae'n Uwch Ddarlithydd Nyrsio Oedolion a'r Cyfarwyddwr Technoleg ac Efelychu.

Arweiniodd Clare ymateb yr Ysgol fel rhan o gam ymgynghorol safonau efelychiad y Gymdeithas ar gyfer Ymarfer Efelychu mewn Gofal Iechyd (ASPiH) yn 2016. Bu Clare hefyd wedi arwain ar ddatblygu, gweithredu a gwerthuso adnodd efelychiad rhyngwladol arloesol i baratoi myfyrwyr nyrsio israddedig yn eu blwyddyn gyntaf ar gyfer lleoliadau yn y gymuned fel rhan o brosiect tair blynedd Addysgeg Efelychiad Arloesol ar gyfer Datblygiad Academaidd (ISPAD) sy'n cael ei ariannu gan Erasmus. Roedd y prosiect ISPAD yn cynnwys cydweithio ag academyddion o ddwy brifysgol ryngwladol (Prifysgol Turku yn y Ffindir a Phrifysgol Molise yn yr Eidal). I gydnabod ei harbenigedd mewn efelychiad a chyfraniad gwerthfawr at y prosiect ISPAD, traddododd Clare y brif ddarlith ar 'efelychiad mewn addysg gofal iechyd' yng

nghynhadledd efelychiad ISPAD a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Malta. Roedd y prosiect ISPAD yn sail i bennod mewn llyfr 'Innovative approaches to nurse teaching and learning' lle trafodir ymagweddau arloesol tuag at efelychiad.

Mae Clare yn aelod cyswllt o'r pwyllgor gwyddonol yn y Gymdeithas Efelychu yn Ewrop (SESAM). Mae hi wedi cyflwyno mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol ar addysg sgiliau clinigol ac Addysg Seiliedig ar Efelychiad. Roedd astudiaeth PhD Clare yn edrych ar addysg a hyfforddiant myfyrwyr nyrsio israddedig mewn techneg aseptig. Mae gan Clare ddiddordeb mawr mewn datblygu rhaglen ymchwil seiliedig ar efelychiad, gyda sylw penodol i ymchwilio i'r amodau optimwm a hyd dadfriffio mewn efelychiad.

Gweledigaeth Clare ar gyfer efelychu yng Nghymru yw gweld y defnydd arloesol o efelychiad yn cael ei gydnabod a'i ddathlu a dod â'r gymuned Sim rhyngbroffesiynol at ei gilydd. Yn ei rôl fel Deon Cyswllt ar gyfer Sgiliau Clinigol ac Efelychiad mi hoffai Clare hyrwyddo efelychiad rhyngbroffesiynol, cyfrannu at y sail dystiolaeth a gwella datblygiad y gyfadran. Mae hi'n arwain ar ffrwd gwaith dechnolegau ymgolli a ymchwil ac yn cyfrannu at ffrwd waith datblygu'r gyfadran fel rhan o gyflawni'r Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Efelychiad Cymru ar gyfer y Gweithlu Gofal Iechyd.

**Suman Mitra, Deon Cyswllt ar gyfer Efelychu a Sgiliau Clinigol, AaGIC**

Mae Suman yn Anesthetydd Ymgynghorol ac yn Gyfarwyddwr Clinigol Addysg Feddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn efelychu sy'n canolbwyntio ar y claf wrth ddarparu addysg a hyfforddiant rhyngbroffesiynol. Mae wedi bod yn rhan o'r byd hyfforddi ac addysgu drwy efelychu ers 2009, pan ddechreuodd oruchwylio cydrannau penodol o raglenni myfyrwyr meddygol. Cyfunodd Suman hynny â hyfforddiant ôl-raddedig ac addysgu parafeddygon cyn iddyn nhw fynd i'r ysbyty. Ers hynny, ei strategaeth fu rhoi addysg feddygol mewn ffordd hollgynhwysol i nifer o arbenigeddau a phroffesiynau, a'r rheini'n cymryd rhan fel cyfadrannau ac fel dysgwyr i gyflawni'u hamcanion unigol, ond gan roi lle canolog i'r claf o hyd. Mae'i brosiectau wedi'u cyflwyno mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi arwain at gydnabyddiaeth i'r myfyrwyr dan sylw.

Fel Uwch Ddarlithydd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor, mae'n defnyddio'r un egwyddorion ar gyfer rhoi addysg ryngbroffesiynol, ac yn addysgu gan ddefnyddio senarios efelychol o dan y cwricwlwm meddygol.

Yn ogystal â'i swyddi o ddydd i ddydd, mae'n cadeirio'r gwasanaeth elusennol yn y gogledd ar gyfer gofal cychwynnol cyn mynd i'r ysbyty; sef y tîm o feddygon a pharafeddygon sy'n mynd ar alwadau gyda'r gwasanaeth ambiwlans i helpu pobl sâl a phobl sydd wedi'u hanafu yn y gymuned.